

Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle

Canllawiau

Polisi ar gyfer Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle

Cefndir Statudol

Cyhoeddir y Polisi hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Llyfrau Cymru a'r gofynion a osodir ar y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae nifer o egwyddorion cyfreithiol allweddol bellach ar waith yng Nghymru:

- Yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg;
- Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny;
- Sefydlodd y Mesur rôl Comisiynydd y Gymraeg, sydd â'r awdurdod i osod Safonau iaith Gymraeg ar Awdurdodau Lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill, gyda'r bwriad o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach yn yr ardal leol.

Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod mwy o ddyletswydd ar y Cyngor Llyfrau i gynllunio ar gyfer y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni. Rhennir y Safonau yn 5 categori sef:

- 1 Cyflenwi Gwasanaethau
- 2 Llunio Polisi
- 3 Gweithredu
- 4 Hybu
- 5 Cadw Cofnodion

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r Safonau Gweithredol, ac mae Safon 98 yn nodi bod yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu a gweithredu polisi ar Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle (Safon 98).

98	Safonau Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.
----	--------------------	--

Ein Gweledigaeth

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Cymraeg a Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cyngor a byddant yn mwynhau'r un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Yn ogystal mae'r Cyngor yn falch o gyfri ei hun yn gyflogwr Cymraeg. Nod y Cyngor yw cyflogi siaradwyr Cymraeg a'r Gymraeg fydd prif iaith gwaith a gweinyddiaeth y Cyngor o ddydd i ddydd.

Dyma ein nodau strategol ar gyfer y Gymraeg:

- Ymrwymo i fod yn gyflogwr sy'n rhoi'r Gymraeg yn gyntaf i osod y Gymraeg fel sgil hanfodol wrth benodi staff a dim ond i wyro oddi wrth hyn pan fo gwirioneddol raid gwneud hynny.
- Ymrwymo i roi blaenoriaeth i'r Gymraeg fel iaith gwaith a gweinyddiaeth ac i ddarparu gwasanaeth i'n cleientiaid yn y ddwy iaith yn gyfartal bob amser.;
- Annog y gweithlu i ymfalchïo yn y Gymraeg;
- Cynnig dewis iaith i gleientiaid pan fyddant yn cysylltu â'r Cyngor a sicrhau parhad yn y dyfodol;
- Parchu'r ffaith fod unigolion yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw hynny;
- Cefnogi unrhyw aelodau o staff i barhau i ddysgu neu i wella'u Cymraeg yn ôl eu anghenion personol, drwy gefnogaeth bersonol cydweithwyr a chysiau hyfforddi allanol yn ôl yr angen;
- Cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyflawni amcanion Strategaeth y Gymraeg: Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr drwy barhau i gyflawni ein gwaith craidd o gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru i gynhyrchu llyfrau safonol yn Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg;
- Annog ac arwain y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru i weithredu yn yr un modd.

1 Gweithrediadau Mewnol (Safonau 98–144)

Rhagarweiniad

Mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â'r Safonau Gweithredol sy'n gosod y sylfeini ac yn cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle.

O dan ei Safonau Iaith Gymraeg, mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi ymrwymo nid yn unig i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'n cleientiaid, ond hefyd i barhau i roi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r Polisi yn rhoi eglurder ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i fod yn weithle Cymraeg lle mae pawb yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg, y mwyafrif yn hyderus iawn, a lle bo angen cefnogaeth, i gynnig y gefnogaeth honno gan gydweithwyr yn ogystal â thrwy hyfforddiant allanol.

Wrth gynnal eu gwaith mewnol o ddydd i ddydd yn Gymraeg, gall y Cyngor fod yn hyderus y bydd yn gallu darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg cyfartal ar gyfer y clientiaid sy'n dewis neu angen hynny, un o brif ofynion Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i barhau'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac fel sail i hyn oll, bydd:

- yn recriwtio siaradwyr Cymraeg, oni bai bod hynny'n profi'n amhosibl;
- yn cefnogi staff i gynyddu'u sgiliau Cymraeg ar draws pob lefel o ddysgu iaith;
- yn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar sail ddyddiol yn y gweithle;

Y Defnydd o'r Gymraeg wrth Weinyddu'n Fewnol [Safon 98]

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i gynnal ei weinyddiaeth fewnol yn Gymraeg.

Un eithriad i hyn fydd rhai o'r papurau sy'n ymwneud â gwasanaethu'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg sy'n ymwneud â chyhoeddi llyfrau Saesneg o Gymru ac yn cynnwys aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'r Swyddog yn siaradwr Cymraeg a'r cofnodion yn cael eu paratoi yn y ddwyieithog. Mae'r Polisi yn mynd i'r afael gyda phedwar maes hanfodol iawn yn y broses o greu gweithle dwyieithog sef: cyfathrebu ac amgylchedd fewnol y sefydliad, technoleg gwybodaeth, recriwtio a hyfforddiant.

2 Cyfathrebu ac amgylchedd mewnol y Cyngor Llyfrau

2.1 Defnyddiau Gweledol

- 2.1.1 Mae pob arwydd cyhoeddus yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 2.1.2 Dylai llofnodion e-bost a negeseuon "allan-o'r-swyddfa" fod yn ddwyieithog. [Safon 135]
- 2.1.3 Caiff y logo "Cymraeg/Dysgu Cymraeg" ei ddefnyddio ar lofnodion e-bost. Darparwyd testun/logo i'r staff fel y gallant eu cynnwys mewn llofnodion e-bost i nodi a ydynt yn siarad Cymraeg neu'n dysgu'r iaith. [Safon 134]
- 2.1.4 Rhoddwyd geiriad corfforaethol i'r staff ei ddefnyddio gyda negeseuon 'allan o'r swyddfa' Outlook. [Safon 135]

2.2 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 2.2.1 Hunaniaeth ddwyieithog – Cymraeg a Saesneg – sydd i'r Cyngor hwn. "Cyngor Llyfrau Cymru/The Books Council of Wales" yw enw cyfreithiol swyddogol y corff.
- 2.2.2 Mae penawdau papur y Cyngor a'i gyhoeddiadau (megis ei gardiau busnes, bathodynau adnabod ayyb) yn ddwyieithog, felly hefyd ei arwyddion a'i gerbydau. [Safon 83]
Bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried o'r dechrau cychwyn wrth greu unrhyw hunaniaeth i ymgyrchoedd neu raglenni'r Cyngor. Gall y rhain fod yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog. Rhaid i sloganau weithio'r un mor dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r idiom Cymraeg a Saesneg bob amser. [Safon 83]

2.3 Cyfathrebu Mewnol

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi ymrwymo i'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu o fewn y sefydliad.

- 2.3.1 Eitemau a anfonir at yr holl staff
Byddant yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog o fewn yr un ddogfen gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg neu i'r chwith ohoni.
Os bydd angen creu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, dylent gael eu teitlo'n glir a'u hanfon allan bob amser ar yr un pryd gyda'g e-bost eglurhaol yn y ddwy iaith.
- 2.3.2 Eitemau a anfonir at unigolion
Cymraeg neu Saesneg, yn dibynnu ar iaith ddewisol y derbynnydd, pan yn ymarferol i wneud hynny. Dylid anfon negeseuon safonol yn ddwyieithog neu yn yr iaith ddewisol.

2.4 Gwasanaeth Cyfieithu

- 2.4.1 Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor Llyfrau. Os yw aelod o staff yn llai hyderus yn eu hiaith ysgrifenedig anogir hwy i ddrafftio'u testun eu hunain (yn enwedig mewn perthynas â llythyrau, e-byst neu ddogfennau byr) trwy gyfrwng y Gymraeg. Os yw aelod o staff yn dewis drafftio yn y Saesneg anogir hwy i gyfieithu eu hunain, neu i ddefnyddio meddalwedd cyfieithu, gyda gofal. Bydd cydweithwyr a neu wasanaeth golygyddol y Cyngor ar gael bob amser i wirio testun. Yn achos dogfennau hwy, mae gwasanaeth cyfieithwyr proffesiynol ar gael (i gyfieithu o Gymraeg i Saesneg yn ogystal ag o Saesneg i Gymraeg). Bydd pob dogfen swyddogol yn cael ei gyrru t wasanaeth golygyddol mewnol y Cyngor. [Safonau 1–7, 34–51, 70]

- 2.4.2 Dylai Swyddogion ganiatáu digon o amser i gyfieithu dogfennau, a dylent drafod eu gofynion gyda'r gwasanaeth golygyddol cyn gynted ag y bo modd.

Fformat Dogfennau Dwyieithog

- 2.4.3 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, dylid gosod y Gymraeg fel y gellir ei darllen yn gyntaf ar yr holl ddogfennau a gynhyrchir gan y Cyngor p'un ai ar ddogfennau allanol dwyieithog neu ddogfennau mewnol dwyieithog a ddarperir. Yn achos unrhyw ohebiaeth ddwyieithog, bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchlaw'r Saesneg neu bydd yr ohebiaeth ar ffurf gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. Bydd y ddwy iaith yr un fath o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd. [Safonau 34, 37, 38, 40, 47–51, 70]
- 2.4.4 Os byddwch yn gorfod cynhyrchu fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ddogfen neu ffurflen, rhaid i Swyddogion sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn nodi'n glir fod y ddogfen/ ffurflen ar gael yn Gymraeg ac i'r gwrthwyneb. [Safon 49, 50A]

2.5 Cyfarfodydd Mewnol

- 2.5.1 Cynhelir cyfarfodydd mewnol ynglŷn â chwynion neu ddisgyblaeth staff yn iaith ddewisol yr aelod dan sylw [Safonau 112–119]
- 2.5.2 Mae cyfarfodydd mewnol y Cyngor yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

2.6 Derbynfeydd Cyhoeddus

- 2.6.1 Does gan y Cyngor ddim derbynfeydd cyhoeddus.

3 Technoleg Gwybodaeth

- 3.1 Mae rhan helaeth o ddefnydd iaith yn y gweithle modern bellach yn digwydd trwy gyfrwng technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yn ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg, galwodd Llywodraeth Cymru am strategaeth technoleg gwybodaeth i gyfrannu at y nod o greu “cenedl wirioneddol ddwyieithog”. Ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg i hyn trwy gyhoeddi'r ddogfen “*Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg*”. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nifer o dargedau a datganiadau polisi ar gyfer integreiddio a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym myd TG.
- 3.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal mewn unrhyw gyfathrebu â'r cyhoedd trwy gyfrifiaduron, e.e. Gwefan y Cyngor, gwasanaethau ar-lein, e-bost hunanwasanaeth, cyfleusterau fideo-gynadledda, cyfryngau cymdeithasol. [Safonau 58–60]
- 3.3 Mae rhyngwyneb Cymraeg ar feddalwedd gyfrifiadurol (Microsoft Office) ar gael i'r holl staff yn ôl eu dewis iaith. [Safon 120]
- 3.4 Wrth ysgrifennu deunydd yn Gymraeg, anogir staff i ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu sy ymhlyg yn Microsoft Office 365. [Safonau 1–7, 34–51, 70]
- 3.5 Does gan y Cyngor ddim mewnrwyd ond mae'n gwneud defnydd o SharePoint i rannu dogfennau polisi a ffeiliau personél perthnasol ac mae'r cynnwys ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. [Safonau 121–124]
- 3.6 Mae gwefan gorfforaethol y Cyngor yn gwbl ddwyieithog ac yn sicrhau:
- (a) bod testun pob tudalen o'r wefan ar gael yn Gymraeg;
 - (b) bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gwbl weithredol; ac
 - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. [Safonau

52–56]

- 3.7 Dwy'r Cyngor ddim yn cyhoeddi unrhyw apiau.[Safon 57]
- 3.8 Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, ac wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'n rhaid i Swyddogion y Cyngor beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.[Safonau 58–59]

4 Gwasanaeth Adnoddau Dynol

4.1 Derbyn Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn yr Iaith Ddewisol

- 4.1.1 Mae Polisiâu Rheoli Perfformiad, gan gynnwys dogfennau adolygu perfformiad, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi cyfle i'r staff gwblhau'r rhain yneu dewis iaith. [Safonau 101–103]
- 4.1.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob mater sy'n ymwneud â chyflogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg, h.y.
- ◆ contract cyflogaeth;
 - ◆ cofnodi oriau gwaith hyblyg;
 - ◆ gall staff gofnodi'u gwyliau blynyddol ac absenoldeb o'r gwaith ar system BrightHR;
 - ◆ bydd polisiâu AD, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r materion canlynol, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog:
 - ymddygiad yn y gweithle
 - iechyd a lles yn y gwaith
 - cyflogau neu fudd-daliadau yn y gweithle
 - rheoli perfformiad
 - absenoldeb o'r gwaith
 - amodau gwaith
 - patrymau gwaith [Safonau 104–111]

4.2 Achwyniadau/Materion Disgyblu

- 4.2.1 Bydd pob aelod staff yn gallu cyflwyno achwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i sicrhau bod pob achos yn cael ei drin a'i drafod yn newis iaith yr aelod staff.
- 4.2.2 Bydd gan bob aelod staff hawl i ymdrin ag unrhyw fater disgyblu neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â chyflogaeth, amodau gwaith neu faterion perfformiad, yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd y Cyngor yn gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i sicrhau bod pob achos yn cael ei drin a'i drafod yn newis iaith yr aelod staff.
- 4.2.3 I bob pwrpas, dylai fod modd i bob aelod staff fynd trwy bob cam o'r broses achwyno neu ddisgyblu trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'n dymuno gwneud hynny. Dylai hyn gynnwys y gwaith papur, y cyfarfodydd a'r penderfyniadau. Dylai hefyd gynnwys y rheini sydd wedi cwyno a'r rheini sy'n ymateb i honiadau. [Safonau 112–119]

4.3 Cynllunio'r Gweithlu

- 4.3.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gorff sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

- 4.3.2 Y man cychwyn yw sicrhau bod y broses recriwtio agored a chroesawgar sy'n denu amrywiaeth o siaradwyr Cymraeg. Dylid defnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n targedu grwpiau priodol, o'r cyfryngau cymdeithasol i faner ar stad ddiwydiannol. Dylid yn ogystal bod yn ymwybodol o iaith a gofynion ieithyddol, bod hysbysebion yn ddealladwy i'r gynulleidfa darged ac yn defnyddio termau mwy agored, ee 'hyder' yn hytrach na 'rhuglder'.
- 4.3.3 Dylid cydnabod bod hyder llafar a hyder ysgrifenedig yn ddau beth gwahanol iawn i'w gilydd ac egluro a mesur yr anghenion ar gyfer y ddau beth ar wahân.
- 4.3.4 Dylid amlinellu'n glir y buddsoddiad a'r gefnogaeth sydd ar gael i barhau i ddysgu, i ddatblygu sgiliau a hyder, a gloywi iaith, unwaith mae person wedi eu penodi.

5 Recriwtio

[Gweler Cynllunio Gweithlu uchod: yn ogystal.]

5.1 Swyddi Newydd a Recriwtio

- 5.1.1 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yr unig eithriad fydd hysbysebion Cymraeg yn unig mewn cylchgronau Cymraeg. At hynny, ceir hysbysebion Saesneg yn unig mewn cylchgronau Saesneg gan gynnwys ymwadiad dwyieithog yn nodi bod angen lefel o sgiliau Cymraeg ar gyfer y swydd. [Safonau 136–137A]
- 5.1.2 Pryd bynnag y caiff swydd-ddisgrifiad newydd ei lunio neu ei ddiwygio neu bryd bynnag y caiff swydd newydd ei chreu, mae'n ofynnol i Reolwyr asesu pob swydd o ran gofynion ieithyddol. Y man cychwyn diodyn yw fod angen y Gymraeg ar bob swydd yn y Cyngor. Bydd pob rheolwr yn penderfynu ar lefelau iaith lafar ac ysgrifenedig yn annibynnol. Bydd unrhyw eithriadau lle methir a phenodi siaradwr Cymraeg yn cael eu trafod gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli. [Safonau 136, 153, 154]

5.2 Hysbysebu Swyddi

- 5.2.1 Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r asesiad ieithyddol a gynhelir ar gyfer pob swydd newydd neu wag, a bydd yn darparu tystiolaeth fel rhan o'r adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg. [Safonau 153, 154]
- 5.2.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yr unig eithriad fydd hysbysebion Cymraeg yn unig mewn cylchgronau Cymraeg. At hynny, ceir hysbysebion Saesneg yn unig mewn cylchgronau Saesneg gan gynnwys ymwadiad dwyieithog yn nodi bod angen lefel o sgiliau Cymraeg ar gyfer y swydd. [Safonau 136–137A]

5.3 Cyfweiliadau a'r Panel Cyfweld

- 5.3.1 Bydd modd cyflwyno cais am swydd yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â dewis iaith yr ymgeisydd. Ni fydd y Cyngor yn trin cais am swydd a wnaed yn Gymraeg yn llai ffafriol nag y mae'n trin cais a wnaed yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, y dyddiad cau ar gyfer derbyn y ceisiadau ac unrhyw amserlen ar gyfer hysbysu unigolion o benderfyniadau). [Safon 137B]
- 5.3.2 Bydd pob ymgeisydd a gaiff ei wahodd i gyfweiliad yn cael cynnig cyfweiliad yn ei ddewis iaith, Cymraeg neu Saesneg. Fodd bynnag, o ystyried disgwyliadau'r Cyngor o ran sgiliau Cymraeg yn y gweithle, mae'n debygol y caiff y cyfweiliad ei gynnal yn Gymraeg. [Safon 139]
- 5.3.3 Gellir cynnal rhan o'r cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg neu Saesneg er mwyn gwerthuso a yw'r ymgeisydd yn cwrdd â'r lefel ieithyddol ofynnol, yn y naill iaith neu'r llall.

- 5.3.4 Bydd aelodau'r panel cyfweld yn siarad Cymraeg. (Yr unig eithriad a all fod i hyn yw os bydd angen penodi Swyddog Datblygu Cyhoeddi: Saesneg, ond gellid darparu offer cyfieithu pe byddai'r ymgeisydd neu aelodau'r Panel yn dymuno hynny.)
- 5.3.5 Pan fydd y Cyngor yn hysbysu unigolyn o'i benderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, fe'i gwneir yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. [Safon 140]

6 Dysgu neu ddatblygu sgiliau iaith

6.1 Dysgu Cymraeg

- 6.1.1 Os oes angen cefnogaeth bellach ar unrhyw ymgeisydd i barhau i ddysgu, i ddatblygu, neu loywi eu Cymraeg cytunir ar hynny yn ystod y cyfnod penodi. [Safon 136A].
- 6.1.2 Caiff aelodau staff eu rhyddhau o'r gwaith os ystyrir bod angen iddynt ddysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg ar gyfer y swydd.
- 6.1.3 Bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu hannog i siarad â dysgwyr.

6.2 Hyfforddiant

- 6.2.1 Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant achlysurol trwy gyfrwng y Gymraeg gan amlaf, yn y meysydd a ganlyn:
 - recriwtio a chyfweld;
 - rheoli perfformiad;
 - gweithdrefnau disgyblu a chwyno;
 - cynefino;
 - ymdrin â'r cyhoedd;
 - iechyd a diogelwch. [Safon 128]

6.3 Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfedd

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am gydymffurfedd y Cyngor yn erbyn Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys adroddiad ar effeithiolrwydd y polisi hwn. [Safonau 151, 158, 170].